**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

# ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU

## Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2000

### Cefndir

Cyllidir Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn rhannol drwy grant gan y Cynulliad ac yn rhannol drwy osod ardollau ar yr awdurdodau lleol ("awdurdodau bilio") o fewn eu hardal.

Mae Rheoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) 1995 (fel y'u diwygiwyd ym 1996) ar hyn o bryd yn pennu mwyafswm yr ardoll a ganiateir drwy gyfeirio at fformwla sy'n seiliedig ar swm y grant sydd i'w roi i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol gan y Cynulliad.

Bydd y rheoliadau drafft sydd gerbron y Cynulliad yn diwygio hyn drwy amnewid mwyafswm penodol ar gyfer pob Parc Cenedlaethol.

Dim ond ar gyfer y blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2000 ac 1 Ebrill 2001 y mae'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys. Y bwriad yw caniatáu amser i sefydlu fformwla ddiwygiedig a fewnosodir wedyn gan orchymyn diwygio pellach a fydd yn gweithredu wedyn o flwyddyn i flwyddyn.

### Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi o ran materion y byddai angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

### Sylwadau Cyffredinol

Ar ôl cael y fantais o weld y rheoliadau hyn yng nghamau cynnar y drafftio, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i nodi rhai pwyntiau a gymerwyd i ystyriaeth yn y drafft terfynol.

Gan hynny, dim ond y pwyntiau canlynol y mae angen eu crybwyll bellach.

### Y Nodyn Esboniadol

Mae angen prif lythyren ar ddechrau'r datganiad agoriadol nad yw'r nodyn yn rhan o'r Rheoliadau, a hynny yn y ddau destun.

**Yn dod i rym**

Dylid mewnosod y dyddiad, ar frig y Rheoliadau ac yn Rheoliad 1(1), yn y copi a osodir yn ffurfiol gerbron y Cynulliad.

**Y Troednodiadau**

Er mwyn osgoi trafferthion gyda'r prosesydd geiriau, mae'r troednodiadau ar hyn o bryd mewn fformat tudalen llawn. Er hynny, dylent fod mewn fformat dwy golofn yn y fersiwn printiedig.

**Teitl**

Mae cromfachau o amgylch "Ardollau" yn y teitl yn y penawdau, ond nid yw'r cromfachau yn ymddangos yn y dyfyniad ei hun yn Rheoliad 1(i). Awgrymir mai'r ffurf heb y cromfachau yw'r gorau.

**M. GERMAN**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-045

25 Ionawr 2000

LC42

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

OFFERYNNAU STATUDOL

**2000 Rhif (Cy. )**

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

**CYLLID**

**Rheoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) (Diwygio) 2000**

**The National Assembly for Wales**

STATUTORY INSTRUMENTS

**2000 No. (W. )**

## LOCAL GOVERNMENT,WALES

**FINANCE**

**The National Park Authorities (Levies) (Wales) (Amendment) Regulations 2000**

## Nodyn esboniadol

(nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) 1995 ("Rheoliadau 1995") fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Diwygio) 1996. Mae Rheoliadau 1995 yn darparu bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn gosod ardollau ar gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol Cymru fel awdurdodau bilio ar gyfer y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli darpariaethau penodol yn Rheoliadau 1995 ar gyfer blynyddoedd ariannol 2000 a 2001 (rheoliadau 2 a 5). Bydd gofyn am ddeddfwriaeth bellach ar gyfer y blynyddoedd sy'n dilyn.

Mae Rheoliad 4 o'r Rheoliadau yn diddymu paragraffau (1) a (2) o reoliad 4 (gosod ardollau) o Reoliadau 1995. Mae'r paragraffau hynny yn atal awdurdod Parc Cenedlaethol rhag gosod ardoll cyn 15 Ionawr yn y flwyddyn ariannol sy'n rhagflaenu'r flwyddyn ariannol y mae ardoll yr awdurdod yn perthyn iddi, oni bai fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu maint y grant y mae'n barod i'w roi i'r awdurdod o dan adran 72 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

## Explanatory note

( this note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the National Park Authorities (Levies) (Wales) Regulations 1995 ("the 1995 Regulations") as amended by the National Park Authorities (Levies) (Wales) (Amendment) Regulations 1996. The 1995 Regulations provide for the issue of levies by the National Park authorities to Welsh county or county borough councils as billing authorities for National Parks in Wales.

These Regulations replace certain provisions in the 1995 Regulations for the financial years 2000 and 2001 (regulations 2 and 5). Further legislation will be required for subsequent years.

Regulation 3 of these Regulations revokes paragraphs (1) and (2) of regulation 4 (issue of levies) of the 1995 Regulations. Those paragraphs, prevent a National Park authority from issuing a levy before the 15th January in the financial year preceding the financial year to which the authority's levy relates, unless the National Assembly for Wales has made a determination of the amount of grant it is prepared to give to the authority under section 72 of the Environment Act 1995.

Mae Rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi paragraff (5) newydd yn lle paragraffau (5), (6) a (7) rheoliad 6 (mwyafswm yr ardollau y gellir eu gosod) o Reoliadau 1995. Mae Rheoliad 6 yn atal awdurdod Parc Cenedlaethol rhag codi drwy ardollau swm sy'n uwch na'r mwyafswm. Mae paragraff (5) yn darparu ar gyfer cyfrifo mwyafswm yr ardoll y gellir ei gosod pan fo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu'r grantiau ar gyfer y Parciau Cenedlaethol cyn y dyddiad, sef 15 Ionawr, y cyfeirir ato uchod. Mae paragraffau (6) a (7) yn darparu ar gyfer cyfrifo mwyafswm yr ardoll y gellir ei gosod pan nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu'r grant erbyn 15 Ionawr. Mae'r ddarpariaeth newydd yn pennu ar gyfer pob Parc Cenedlaethol fwyafswm unigol yr ardollau y gellir eu gosod gan bob Parc Cenedlaethol.

Regulation 4 of these Regulations, substitutes paragraphs (5), (6) and (7) of regulation 6 (maximum amount of levies) of the 1995 Regulations with a new paragraph (5). Regulation 6 prevents a National Park authority from raising by way of levies an amount in excess of the maximum amount. Paragraph (5) makes a provision for calculating the maximum levy where the National Assembly for Wales has made a determination of National Park grants before the 15th January date referred to above. Paragraphs (6) and (7) make provision for calculation of the maximum levy where the National Assembly for Wales has not made a determination of grant by the 15th January. The substituted provision specifies a single maximum amount of levy which is specified

for each National Park authority.

Mae Rheoliad 5 yn gwneud diwygiadau ôl-ddilynol.

Regulation 5 makes consequential amendments.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

OFFERYNNAU STATUDOL

**2000 Rhif (Cy. )**

**LLYWODRAETH LEOL, CYMRU**

**CYLLID**

**The National Assembly for Wales**

STATUTORY INSTRUMENTS

**2000 No. (W. )**

**LOCAL GOVERNMENT, WALES**

**FINANCE**

## Rheoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) (Diwygio) 2000

*Wedi'u gwneud 2000*

*Yn dod i rym 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 74, 140(4) a 143(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988[a] ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru[b] a phob pðer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.-**(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2000 a byddant yn dod i rym ar

(2) Yn y Rheoliadau hyn

ystyr "y Prif Reoliadau" yw

Rheoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) 1995[c]

**Diwygio rheoliad 3 o'r Prif Reoliadau**

## The National Park Authorities (Levies) (Wales) (Amendment) Regulations 2000

*Made 2000*

*Coming into force 2000*

The National Assembly for Wales, in exercise of the power conferred on the Secretary of State by sections 74, 140(4) and 143(2) of the Local Government Finance Act 1988[a] and now vested in the National Assembly for Wales[b] and of all other powers enabling it in that behalf, makes the following Regulations.

**Citation commencement and interpretation**

**1.-**(1) These Regulations may be cited as the National Park Authorities Levies (Wales) (Amendment) Regulations 2000 and shall come into force on

(2) In these Regulations

"the Principal Regulations" means the National Park Authorities (Levies) (Wales) Regulations 1995[c]

**Amendment of regulation 3 of the Principal Regulations**

**2.** Rhodder yn lle rheoliad 3 o'r Prif Reoliadau (cymhwyso) y rheoliad canlynol-

"3. These Regulations apply in relation to any levy of a National Park authority to be issued to, or anticipated by, a relevant billing authority in respect of financial years beginning on 1st April 2000 and 1st April 2001."

**Diwygio rheoliad 4 o'r Prif Reoliadau**

**3.** Yn rheoliad 4 o'r Prif Reoliadau (gosod ardollau) hepgorer paragraffau (1) a (2).

**Diwygio rheoliad 6 o'r Prif Reoliadau**

**4.** Yn rheoliad 6 o'r Prif Reoliadau (mwyafswm ardollau) yn lle paragraffau (5), (6) a (7) mewnosoder y paragraff canlynol -

"(5) In this regulation -

"the agreed proportion" and "the relevant proportion" shall be construed in accordance with regulation 5,

"maximum amount" means the amount specified for each National Park authority in the following table -

**2.** For regulation 3 of the Principal Regulations (application) substitute the following regulation-

"3. These Regulations apply in relation to any levy of a National Park authority to be issued to, or anticipated by, a relevant billing authority in respect of financial years beginning on 1st April 2000 and 1st April 2001."

**Amendment of regulation 4 of the Principal Regulations**

**3.** In regulation 4 of the Principal Regulations (issue of levies) omit paragraphs (1) and (2).

**Amendment of regulation 6 of the Principal Regulations**

**4.** In regulation 6 of the Principal Regulations (maximum amount of levies) for paragraphs (5), (6) and (7) substitute the following paragraph –

"(5) In this regulation –

"the agreed proportion" and "the relevant proportion" shall be construed in accordance with regulation 5,

"maximum amount" means the amount specified for each National Park authority in the following table -

National Park Authority Maximum Amount £

Brecon Beacons

National Park 621,661

Pembrokeshire Coast

National Park 677,779

Snowdonia National

Park 878,558 "

National Park Authority Maximum Amount £

Brecon Beacons

National Park 621,661

Pembrokeshire Coast

National Park 677,779

Snowdonia National

Park 878,558 "

**Diwygio rheoliad 7 o'r Prif Reoliadau**

**5.** Yn rheoliad 7 o'r Prif Reoliadau (amnewid ardollau) yn lle paragraff (4) mewnosoder -

"A new levy shall be issued in accordance with these Regulations."

**Amendment of regulation 7 of the Principal Regulations**

**5.** In regulation 7 of the Principal Regulations (substituted levies) for paragraph (4) substitute –

"A new levy shall be issued in accordance with these Regulations."

**Eithriadau**

**6.** Bydd darpariaethau'r Prif Reoliadau fel yr oeddent yn bodoli yn union cyn y diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan y Rheoliadau hyn yn parhau mewn grym mewn perthynas ag unrhyw ardoll gan awdurdod Parc Cenedlaethol a osodir ar awdurdod bilio perthnasol ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau cyn

1 Ebrill 2000.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*(ch)*

**Savings**

**6.** The provisions of the Principal Regulations as existing immediately prior to the amendments made by these Regulations shall continue in force in respect of any levy of a National Park authority issued to a relevant billing authority in respect of any financial year beginning before 1st April 2000.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(d).

Ionawr 2000

January 2000

Dafydd Elis-Thomas

Y Llywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dafydd Elis-Thomas

Presiding Officer, National Assembly for Wales